# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 11-08 (p2) : 25 Ebrill 2008**

## Tystiolaeth fforwm i'r Ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch gan Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**25 Ebrill 2008**

### Rhagarweiniad

Mae fforwm yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor ar Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch. Mae'r rhan fwyaf o golegau addysg bellach (AB) yng Nghymru yn ymrestru myfyrwyr addysg uwch (AU). Mae ymchwiliad y Pwyllgor felly o ddiddordeb i golegau AB. Yn ogystal â hyn, mae colegau AB ar hyn o bryd ar ganol proses ddiwygio a allai effeithio maes AB yng Nghymru'n ddramatig. Bydd Adroddiad yr Arolwg o Addysg Bellach (AB) a gadeirir gan Syr Adrian Webb a Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, strategaeth ddrafft cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn effeithio ar gyfeiriad sefydliadau addysgol a chyflogwyr yn y dyfodol. Mae ymchwiliad y Pwyllgor felly yn amserol.

### Cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn AB

Mae colegau AB yn cyflwyno cyrsiau AU mewn amrywiaeth o ffyrdd. Trefniadau masnachfraint gyda sefydliadau AU yw'r mwyaf cyffredin, lle y mae colegau'n cyflwyno rhan o'r cwrs gradd cyffredinol a chânt gyllid gan y sefydliad AU perthnasol o arian a dderbynnir oddi wrth Gyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru (HEFCW). Mae rhai colegau'n derbyn cyllid uniongyrchol gan HEFCW ac yn ffurfio cytundeb gyda sefydliadau AU lleol i ddarparu cefnogaeth briodol, gan gynnwys sicrhau ansawdd.

Yn 2005/06 ymrestrodd saith coleg AB yng Nghymru 1,558 o fyfyrwyr AU a gyllidwyd yn uniongyrchol gan HEFCW[1] gan dderbyn £2.74m o gyllid uniongyrchol (cynyddodd y swm hwn i £3.19 yn 2006/07)[2].

Yn ei dystiolaeth a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2005 i Arolwg Rees ar Ddatganoli Cefnogaeth Myfyrwyr, nododd fforwm fod:

'21 o golegau... wedi ymrestru myfyrwyr AU trwy fasnachfraint a threfniadau eraill. Mae fforwm wedi amcangyfrif bod colegau AB yn derbyn cyllid o ryw £15.8m y flwyddyn ar gyfer eu darpariaeth AU. Ar ben yr incwm uniongyrchol gan HEFCW, mae colegau'n derbyn incwm masnachfraint o ryw £6.7m ac o gwmpas £5.5m mewn ffioedd. Amcangyfrifir bod cyfanswm o 7,500 o fyfyrwyr yn cymryd cyrsiau AU mewn colegau AB - tua 7 y cant o'r cyfanswm o 110,000 o fyfyrwyr AU yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn llai na'r gyfran (11 y cant) yn Lloegr ac mae potensial sylweddol ar gyfer twf[3].'

Yn 2005/06, 320 oedd cyfanswm nifer y cyrsiau AU a gynigiwyd gan 16 o golegau, yn amrywio o ddau gwrs i 92, gyda chyfartaledd o 20 cwrs y coleg. Rhestrir enghreifftiau o gyrsiau AU a ddarperir gan golegau AB yn Atodiad 2.

### Myfyrwyr ar gyrsiau AU

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr AU sy'n mynychu colegau AB yn oedolion sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser mewn trefniant masnachfraint gyda sefydliadau AU. Fel y cyfryw, mae colegau'n chwarae rôl bwysig wrth ehangu mynediad i addysg uwch. Yn ogystal â hyn, mae rhai myfyrwyr rhan-amser yn dilyn cyrsiau proffesiynol a rhai eraill y telir amdanynt gan eu cyflogwyr.

Mae gan golegau gyfraniad pwysig i'w wneud i fathau newydd o gyrsiau, fel Graddau Sylfaen dwy flynedd, a lunnir gan ymgynghori â chyflogwyr ac sy'n ceisio adlewyrchu anghenion busnes. Hyd yn hyn, mae nifer y cyrsiau a redir mewn colegau yng Nghymru yn llai nag yn Lloegr. Fodd bynnag, maent yn rhoi cyfle ar gyfer ehangu yn y dyfodol i fodloni'r angen am sgiliau lefel uwch a nodir yn Adroddiad Leitch.

### Cyfraniad economaidd Addysg Bellach

Mae nifer o astudiaethau wedi dangos cyfraniad economaidd addysg bellach. Mae darpariaeth AU yn ffurfio rhan bwysig o waith AB ac yn cyfrannu tuag at ganlyniadau'r astudiaethau hyn.

Comisiynodd yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (DEIN) Brifysgol Caerdydd[4] i ymchwilio i effaith economaidd gweithgaredd prynu sefydliadau AB a'u staff a'u myfyrwyr. Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan Weithrediaeth yr Alban yr enillion ar fuddsoddi mewn cymwysterau. Gan gyfuno'r ddau ddangosydd hyn (a thybio bod colegau AB yng Nghymru'n debyg yn fras i golegau AB yn yr Alban), maent yn dangos bod colegau AB yng Nghymru yn cyfrannu amcangyfrif o £1.4bn i economi Cymru; ffigur agos at yr hyn a gynhyrchir gan sefydliadau AU.[5]

Yn ogystal â'r cyfraniadau economaidd uniongyrchol a achosir gan fuddsoddiad mewn AB, mae astudiaethau wedi dangos hefyd fod buddion ychwanegol i ddysgwyr. Er enghraifft, mae cyrsiau am ddim a gynigiwyd i ddysgwyr di-waith yn Lloegr wedi dangos eu bod yn cyfrannu'n sylweddol at allu'r dysgwyr i symud i mewn i waith ac i wella cyflogadwyedd.[6] Mae astudiaeth yng Nghanada wedi dangos bod myfyrwyr yn elwa o enillion uwch ac o well ffyrdd o fyw; mae trethdalwyr yn elwa o economi ehangach a chostau cymdeithasol is; ac mae'r gymdeithas yn gyfan yn elwa o gyfleoedd uwch o ran swyddi a buddsoddi, enillion busnes uwch, argaeledd uwch o gyllid

cyhoeddus a llwyth trethi ysgafnach.[7]

Byddai fforwm yn croesawu bod y Pwyllgor yn argymell ymchwil fanwl bellach ar gyfraniad addysg bellach ac uwch gan gynnwys nodi'r enillion ar fuddsoddi mewn sgiliau i'r unigolyn, y cyflogwr a'r trethdalwr.  Yn rhy aml caiff iaith 'cost' a 'gwariant' ei defnyddio'n hytrach na 'buddsoddi' ac 'enillion'.  Mae'n rhaid i gyllido gael ei gyfyngu ond mae buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant yn rhoi enillion ariannol eang.  Gall hyn helpu Gweinidogion i gystadlu am adnoddau oddi wrth adrannau gwariant gan gynnwys iechyd, cludiant a thai.  Mae addysg ar gyfer y tymor hir; ni all gynnig atebion tymor byr i broblemau hirhoedlog.

## Cysylltiadau â chyflogwyr

Mae colegau hefyd yn gwneud cyfraniad o bwys i economi Cymru trwy eu partneriaeth â chyflogwyr.  Mae colegau yng Nghymru'n adrodd bod cyswllt â mwy na 25,000 o gyflogwyr bob blwyddyn.  Mae 21 o golegau'n cyflwyno cyrsiau dysgu seiliedig ar waith (DSAW) wedi'u cyllido'n gyhoeddus, gan dderbyn tua £23m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC).

Caiff y term 'ymrwymiad cyflogwr' ei ddefnyddio fel arfer i ddisgrifio rhan cyflogwyr wrth ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol trwy gysylltiadau â darparwyr addysg.[8]  Caiff 'ymatebolrwydd darparwyr' a 'bodloni anghenion sgiliau dysgwyr a chyflogwyr' eu defnyddio yn gyfnewid am 'ymrwymiad cyflogwr'.[9] Mae ymrwymiad cyflogwr yn cynnwys:

cael cyflogwyr i gymryd rhan yng nghynllunio, datblygiad, rheolaeth a chyflwyno dysgu i wella 'parodrwydd at waith' a chyflogadwyedd dysgwyr;

gwasanaethau uniongyrchol y mae colegau'n eu cynnig i gyflogwyr, gan gynnwys anghenion hyfforddiant, dadansoddiad a gwasanaethau hyfforddi wedi'u teilwra;

Partneriaethau strategol y mae colegau'n eu ffurfio gyda chyflogwyr, gyda darparwyr eraill a chydag asiantaethau cenedlaethol/rhanbarthol i fodloni anghenion sgiliau ardaloedd lleol

Mae cwmpas ymrwymiad cyflogwyr mewn AB yng Nghymru'n  enfawr ac mae'n ymwneud â gwaith gyda mentrau maint micro, bach a chanolig (SMEau) yn ogystal ag â chwmnïau amlwladol.  Gall fod yn:

rhan o gytundeb DSAW y coleg

hyfforddiant wedi'i deilwra

cysylltiadau cwricwlwm trwy anogwyr mentergarwch

trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)

trwy raglenni profiad gwaith dysgwyr

Gellir canfod enghreifftiau o arfer da o ymrwymiad cyflogwyr mewn AB yng Nghymru mewn adroddiad a gyllidwyd gan CIR, a gomisiynwyd gan fforwm.[10]

## Cynghorau Sgiliau Sector

Mae fforwm yn cydnabod pwysigrwydd allweddol Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) wrth ddod â chyflogwyr a cholegau at ei gilydd.  Mae Adroddiad Webb yn nodi bod mwy i'w wneud eto ac mae'n tynnu sylw at y ffaith mai ychydig o gyswllt o hyd sydd gan rai cyflogwyr â'r CSS sy'n gyfrifol am eu sector.  Fodd bynnag, mae CSSau yn dechrau cymryd rôl arweiniol mewn galw am hyfforddiant a arweinir gan gyflogwyr.  Mae nifer o CSSau ar hyn o bryd yn trafod gyda chynrychiolwyr o golegau AB trwy Rwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith fforwm.  Dros gyfnod o ddeuddeg mis, bydd rheolwyr dysgu seiliedig ar waith mewn colegau wedi cael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr yr holl CSSau.  Mae'r CSSau, yn enwedig y rhai llai, yn gwerthfawrogi'r cyswllt hwn yn fawr.

Mae fforwm yn croesawu'r datganiad yn  Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru y dylai CSSau ganolbwyntio ar gynyddu ymrwymiad, galw a buddsoddiad cyflogwyr o ran sgiliau; cynnal dadansoddiadau o anghenion y farchnad lafur a rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu cymwysterau galwedigaethol newydd.  Fodd bynnag, i gyflawni'r rhain, mae angen iddynt gael eu cefnogi'n llawn gan asiantaethau allweddol eraill fel cyrff dyfarnu a cholegau. Rhaid i'w cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn gynaliadwy i'w galluogi nhw i gael y gallu i gyflwyno'r gwasanaethau hyn.

## Graddau sylfaen

Argymhellodd Adroddiad Webb fod ymgynghori ar roi pwerau dyfarnu graddau sylfaen i golegau AB (arg. 85). Mae'r radd sylfaen (GS) yn gymhwyster cymharol newydd yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) Lefel 5, sy'n awr yn denu recriwtio iach yn Lloegr.  Dangosodd Adroddiad SQW fod 61,000 o fyfyrwyr GS CALL yn Lloegr gyda tharged o 100,000 erbyn 2010,[11]   Cafwyd cyllid ychwanegol sylweddol o £32m rhwng 2003 a 206 i gynorthwyo gyda datblygiad GSau a lansiwyd ymgyrch hyrwyddo fawr yn 2003 i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr a darpar fyfyrwyr.[12]

Yng Nghymru, cyhoeddodd HEFCW gyllid datblygu o £200k yn 2001/02 ond ni chafodd niferoedd ychwanegol o fyfyrwyr eu cyllido a 'gwelwyd bod codi ymwybyddiaeth o GSau yn flaenoriaeth isel'. [13] Roedd 1,306 o fyfyrwyr GS yng Nghymru yn 2005/06, yn ffurfio 3.2% o'r holl israddedigion, a hyn wedi cynyddu o 663 (1.7%) yn 2003/04 a 1,067 (2.6%) yn 2004/05.  Cafodd y cynnydd ei gyfateb gan y

cwymp mwy yn nifer a chyfran myfyrwyr a oedd yn dilyn cyrsiau HNC ac HND. [14]

Mae Adroddiad SQW yn dangos bod llawer o raglenni GS yn cael eu cyflwyno gan bartneriaethau AU/AB yng Nghymru, gan nodi yn Lloegr bod 54% o GSau yn cael eu cyflwyno gan golegau AB.

### Sut i symud ymlaen

Mae angen i GS cael ei hadeiladu i mewn i hierarchaeth cymwysterau. Dylai'r cyfleoedd gyda Phrentisiaethau Modern Sylfaen a Phrentisiaethau Modern fod yn uniongyrchol. Mae GSau a phrentisiaethau'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith (DSAW). Bydd yn bwysig symud dilyniant i mewn i 'r radd sylfaen o Lefel 3 (e.e. Diplomâu Cenedlaethol BTEC, lefelau UG/Uwch a Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru). Gallai dysgwyr astudio'n lleol mewn coleg AB hyd at lefel 5 o leiaf.

Mae angen cael arweiniad clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a HEFCW am bwysigrwydd datblygu GSau i fodloni blaenoriaethau strategol Cymru, gyda chyllid ar gyfer datblygu a darpariaeth. Dyma argymhelliad allweddol yn astudiaeth SQW a chefnogir hyn gan fforwm. Dylid datblygu dyfarniadau newydd mewn pynciau o bwys economaidd, wedi'u cysylltu â chyflogaeth. Byddai'r cynnydd yn y nifer o ddysgwyr GS yn gwneud mwy na iawn am y cwymp yn nifer yr HNDau ac HNCau o ran 'graddedigion' - sefyllfa o dwf.

Mae fforwm yn credu bod colegau yng Nghymru, trwy eu hagenda cryf o ran cyflogaeth a'u harbenigedd mewn cyflwyno cymwysterau galwedigaethol mewn sefyllfa dda i ddyfarnu eu GSau eu hunain. Rhoddodd Deddf AB a Hyfforddiant 2007 y pwer i golegau AB yn Lloegr ddyfarnu GSau (yn amodol ar feini prawf ansawdd cadarn a rhai eraill). Roedd yn arwydd o hyder yn y sector AB gan Lywodraeth y DU na chafodd ei gyfateb ar y pryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ers hynny, serch hynny, mae John Griffiths, y Dirprwy Weinidog ar gyfer Sgiliau, wedi nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn "awyddus bod sefydliadau addysg bellach yn cael y pwerau hyn i ddyfarnu graddau sylfaenol" a bod LLCC am "symud i sefyllfa lle y bydd gan sefydliadau addysg bellach y pwer i ddyfarnu'r graddau sylfaen hyn eu hunain".[15] Mae fforwm yn croesawu datganiadau'r Dirprwy Weinidog ar y mater.

Ni fyddai estyn pwerau'n tanseilio'r berthynas weithio agos sy'n bod rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru.. Fodd bynnag byddai'n cynyddu'r nifer o GSau yng Nghymru - sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd yr economi yn y dyfodol, yn ôl adroddiad Leitch. [16]

### Crynodeb a Chasgliad

Gwnaeth colegau AB gyfraniad pwysig i gyflwyno AU yng Nghymru, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol. Wrth wneud hyn maent yn gweithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Uwch.

Mae colegau'n gwneud cyfraniad economaidd sylweddol i'r economi, sy'n cyfateb i un sefydliadau addysg uwch.

Mae gan golegau gysylltiadau cryf â chyflogwyr ac maent yn gyfarwydd â gweithio'n agos gyda nhw wrth gynllunio rhaglenni, darparu gwasanaethau a ffurfio partneriaethau strategol.

Bydd datblygiad ac ehangiad graddau sylfaen yn gwneud cyfraniad pwysig i godi sgiliau technegol a galwedigaethol.

Dylai LLCC fynd ati'n gyflym i gyflwyno Mesur i roi i golegau AB bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen.

### Atodiad 1

### fforwm

fforwm yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli'r 23 coleg addysg bellach (AB) a dau sefydliad AB yng Nghymru. Y mae'n elusen addysgol ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Mae Bwrdd fforwm yn cynnwys penaethiaid colegau a chadeiryddion corfforaethau, wedi'u penodi gan aelod-golegau. Mae fforwm yn darparu ystod o wasanaethau i'w aelodau gan gynnwys rhwydweithiau, cynadleddau, ymchwil, ymgynghoriaeth a rhannu arfer da. Y mae hefyd yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid mewn addysg a hyfforddiant ôl 16. Trwy fforwm, caiff colegau eu cynrychioli ar wahanol bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau eraill sy'n dylanwadu ar bolisi addysg ôl 16 a dysgu gydol oes ac sy'n ei ffurfio.

### Colegau AB yng Nghymru

Mae colegau AB yn sector hynod o lwyddiannus, sy'n cyflwyno dysgu o safon uchel sydd o fudd i ddysgwyr a busnesau yng Nghymru. Yn ei dystiolaeth i'r Arolwg AB, nododd fforwm mai:

'Colegau yw prif gyflwynwyr cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yng Nghymru. Mewn gwirionedd, ni ddaw unrhyw sector arall yn agos at gyfateb i swm ac amrywiaeth yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir gan golegau yng Nghymru. Mae gan golegau hefyd record ardderchog mewn ehangu mynediad i fyfyrwyr dan anfantais ac i rai sydd am ddychwelyd i ddysgu. Mae bodloni anghenion sgiliau eu cynefin yn effeithiol ac yn effeithlon trwy gysylltiadau agos a chadarn â chyflogwyr yn nodwedd gref o waith colegau. Mae gan golegau rôl o bwys i'w chwarae wrth gefnogi a datblygu'r economi lleol a rhanbarthol trwy fod yn:'

un o gyflogwyr staff mwyaf mewn ardal benodol;

darparwr gwasanaeth o bwys a

partner strategol pwysig i randdeiliaid allanol eraill gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a phrifysgolion yn ogystal â chyflogwyr ac

asiantaethau cynllunio lleol/rhanbarthol.

## Atodiad 2

### Enghreifftiau o gyrsiau AU a gynigir gan golegau AB yng Nghymru

### HNCau:

Aero-Beirianneg

Gweinyddu Busnes

Technoleg Drydanol ac Electronig

Astudiaethau Anifeiliaid

### HNDau:

Cyfrifiadura (Technoleg Gwybodaeth Busnes)

Astudiaethau Ceffylau

Dylunio/Crefftau

### Graddau Sylfaen:

Astudiaethau Plentyndod Cynnar

Astudiaethau Aml-gyfrwng

### BA:

Rheolaeth a Lletygarwch

Celfyddydau Perfformio

### Mae cyrsiau AU eraill yn cynnwys:

Rhagarweiniad i Dystysgrif Ddysgu

Tystysgrif a Diploma Gwaith Ieuenctid

gwahanol gymwysterau proffesiynol a ddilysir gan Gymdeithas Technegwyr Cyfrifo (AAT), Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli (CIMA), Sefydliad Gweithredwyr Cyfreithiol (ILEX); Tystysgrif ôl-raddedig mewn Rheolaeth; Diploma ôl-raddedig mewn Rheolaeth.

### Dyfyniadau


1. HEFCW (Ionawr 2008) Funding Enrolments WO8/01HE, Tabl 2

2. HEFCW (Rhagfyr 2007) Adroddiad Blynyddol 2006/07, t.60

3. ymateb fforwm i Arolwg Rees ar Ddatganoli Cefnogaeth i Fyfyrwyr (Ionawr 2005) t1-2. Ar gael o www.fforwm.ac.uk/1199.dld

4. DEIN (Ionawr 2007) The Impact of Further Education Institutions on the Economy of Wales

5. HEFCW (2007) Corporate Strategy and Corporate Plan and Operational Plan 2007-08 to 2009-2010, t18.

6. Cyngor Dysgu a Sgiliau (Ionawr 2008) Impact of Learning on Employability: Key Findings.

7. Association of Canadian Community Colleges (2006) The Economic Contribution of Canada's Community Colleges and Technical Institutes: An Analysis of Investment Effectiveness and Economic Growth. Dyfynnwyd yn Building a Better Scotland, Strategic Spending Review Submission 2007, Association of Scotland's Colleges, 2007

8. Miller, A., LSN (2007) Developing Employer Engagement

9. Hughes, M., LSN (2006) What do we know about working with employers, a synthesis of LSDA work on employer engagement

10. Clough, L., i fforwm (Mawrth 2007) Promoting Effective Practice in Employer Engagement. Mae rhan o'r adroddiad hwn ar gael o www.fforwm.ac.uk/2758.dld - "Employer Engagement: Supplementary Paper 3".

11. SQW (Mawrth 2007) Study on the Role of Foundation Degrees in Wales: A Report to the Higher Education Funding Council for Wales, para 2.40

12. ibid., para 2.38

13. ibid., para 2.41

14. Dyma ffigurau HND yn 2003/04: 3,743 (9.4%); 2004/05: 3,204 (7.7%); 2005/06: 3,030 (7.4%). 3,212 (8.0%) yw ffigurau HNC; 3,079 (7.4%); 2,860 (7.0%) yn eu trefn. SQW (2007) Atodiad B.

15. Datganiadau a wnaed i Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 27 Chwefror 2008.

16. Argymhellodd adroddiad Leitch newid sylweddol wrth ddarparu'r cymwysterau hyn.  Mae'r nifer sy'n dilyn HNDau wedi syrthio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.  Er mwyn cael cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth, mae angen datblygu mwy o raddau sylfaen, yn hytrach na rhoi monopoli i HNDau, yn enwedig yn sgil y lleihad yn eu poblogrwydd.""